PWYLLGOR PENODI

DYDD IAU, 8 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Cunnah, Gavin Hill-John, Huw Thomas a/ac Weaver |

9 : ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd Huw Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn ar gyfer penodi Prif Swyddog Digidol.

*(Cynghorydd Huw Thomas yn Cadeirio)*

10 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Dim

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

12 : CYLCH GORCHWYL

I nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

13 : EITHRO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

14 : PENODI PRIF SWYDDOG DIGIDOL

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Prif Swyddog Digidol.

Adolygodd y Pwyllgor tri deg chwech o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nododd yr ymgeiswyr hynny i fynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar 19 a 20 Chwefror 2018.

PENDERFYNWYD –

(1) y caiff ymgeiswyr 3, 10, 14, 16, 19, 22, 25 28, 30 a 35 eu symud ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar 19 a 20 Chwefror 2018.

(2) Y caiff y Pwyllgor ei ailymgynnull ar gyfer 2 Mawrth 2018 am 2.00pm er mwyn galluogi ystyried yr adborth o'r Ganolfan Asesu a chytuno ar ba ymgeiswyr y dylid cynnig cyfweliad iddynt ar 9 Mawrth 2018.

15 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

16 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD GWENER 2 MAWRTH 2018 AM 2.00YP